



**Mae hwn yn Adolygiad
Arbennig am:**



**Yr hyn a wnaeth Bwrdd
Iechyd Prifysgol Abertawe
Bro Morgannwg (ABMU)
pan oedd yn cyflogi Mr W**



**A beth a wnaeth am y
cwynion y gwnaeth pobl yn
ei erbyn**



Mae hwn yn adroddiad hawdd ei
ddarllen.



Dyddiad cyhoeddi: 29 Ionawr, 2019



Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn
ar ein gwefan www.hiw.org.uk

Gallwch chi ofyn am gopi o'r adroddiad
e-bost: hiw@gov.wales




post: Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ



Ffôn: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387



Beth ddigwyddodd?



Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn edrych ar ôl gwasanaethau iechyd yn Abertawe, Pen-y-bont, Castell-nedd ac ardaloedd gerllaw.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn eu galw yn y Bwrdd Iechyd.



Roedd Mr W yn fyfyrwr oedd yn astudio cyfrifiaduron.



Roedd yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd yn edrych ar eu cyfrifiaduron.



Roedd ei dad yn Gyfarwyddwr yn y Bwrdd Iechyd.



Yn 2001, dechreuodd Mr W swydd TG amser llawn yn y Bwrdd Iechyd.



Yn 2004, aeth i ffwrdd yn sâl.



Ni aeth yn ôl i'w swydd TG.



Roedd yn teimlo bod y sgriniau cyfrifiadur yn ei wneud yn sâl.



Cafodd ef swydd wahanol mewn rhan arall o'r Bwrdd Iechyd.



Y swydd newydd oedd gofalu am bobl ag anabledd dysgu.



Dechreuodd yn 2005

Roedd yn gweithio yn y swydd honno tan 2012



Gwnaeth 3 chlaf honiadau yn ei erbyn.



Honiad yw pan fydd rhywun yn dweud bod rhywun wedi gwneud rhywbeth o'i le.



Roedd gan yr holl gleifion anabledd dysgu.



Gwnaethon nhw eu honiadau rhwng 2011 a 2013.



Dywedon nhw bod Mr W wedi gwneud pethau rhywiol iddyn nhw nad oedden nhw eu heisiau.



Honiad 1



Cafodd yr honiad ei wneud yn Rhagfyr 2011.



Roedd Mr W yn weithiwr cymorth i bobl ag anabledd dysgu.



Dywedodd menyw bod Mr W wedi gwneud pethau rhywiol iddi nad oedd hi eu heisiau.



Ysgrifennodd y staff yr hyn wnaeth hi ei ddweud yn ei nodiadau.



Ni ddigwyddodd dim byd arall.



Yn Ionawr 2012 darllenodd rheolwr ei nodiadau.

Darllenon nhw am yr hyn y dywedodd y fenyw oedd wedi digwydd.



Cawson nhw gyfarfod POVA.



POVA yw:

Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.
Mae'n ymwneud â chadw pobl yn ddiogel.



Roedd Mr W ar absenoldeb arbennig.

Roedd hyn yn golygu ei fod yn cael ei dalu ond ei fod yn aros gartref wrth i'r Bwrdd lechyd edrych ar yr hyn yr oedd y fenyw wedi dweud.



Cafwyd cyfarfod POVA arall.



Gwnaeth yr heddlu ymchwiliad.



Ni wnaethon nhw ddod o hyd i ddigon i ddweud y dylai Mr W fynd i'r llys.



Edrychodd y bwrdd iechyd i weld beth arall oedden nhw'n gallu ei ddarganfod.



Ni wnaethon nhw ddarganfod unrhyw beth.



Cawson nhw 3ydd cyfarfod POVA.



Nid oedd digon o wybodaeth i'r bwrdd iechyd ymchwilio rhagor.



Ym mis Ebrill 2012 daeth Mr W yn ôl i'r gwaith.



Nid oedd Mr W yn gweithio gyda'r un bobl.

Roedd yn weithiwr cymorth mewn gwasanaeth gwahanol.



Honiad 2



Ym mis Hydref 2012 gwnaeth person arall honiad yn erbyn Mr W.



Roedd am bethau oedd wedi digwydd 2 flynedd cyn hynny.



Cafodd y Bwrdd Iechyd gyfarfod POVA newydd.



Dechreuodd yr heddlu ymchwilio.



Roedd Mr W ar absenoldeb arbennig eto.



Ym mis Rhagfyr dywedodd yr heddlu nad oedd digon o wybodaeth i fynd i'r llys.



Cafwyd cyfarfod POVA arall.



Meddyliodd y Bwrdd Iechyd am wneud ymchwiliad.



Yn Chwefror 2013, penderfynodd y Bwrdd Iechyd na fyddai ymchwiliad yn helpu.



Honiad 3



Yn Chwefror 2013 gwnaeth menyw arall honiad am Mr W.



Roedd yr honiadau newydd am bethau a ddigwyddodd yn 2011.



Cafwyd cyfarfod POVA newydd.



Ym Mawrth 2013 gwnaeth y Bwrdd Iechyd atal Mr W. o'i waith.

Roedd hyn yn golygu ei fod i ffwrdd o'r gwaith ond yn dal i gael ei dalu.



Yn Ebrill 2013 cafwyd cyfarfod POVA arall am yr honiad newydd.



Dywedodd yr heddlu fod eu hymchwiliadau yn dod i ben.



Dywedodd yr heddlu eu bod yn anfon y 3 honiad i'r CPS.



Y CPS yn Gwasanaeth Erlyn y Goron.



Y CPS sy'n penderfynu os oes rhaid i rywun fynd i dreial am drosedd.

Dywedodd yr heddlu hefyd y gallai'r bwrdd iechyd ymchwilio.



Ni wnaeth y bwrdd iechyd gael cyfarfod POVA bryd hynny.



Roedden nhw am aros i glywed beth fyddai'r CPS yn ei benderfynu yn gyntaf.



Yn Ionawr 2014 penderfynodd y CPS i beidio â mynd â Mr W i'r llys.



Cafodd y Bwrdd Iechyd gyfarfod POVA am yr honiad.



Dywedodd yr heddlu eu bod yn bryderus iawn bod Mr W yn risg i gleifion.



Roedd y bwrdd iechyd yn dal i atal Mr W. o'i waith.



Gwnaeth y Bwrdd Iechyd ymchwilio eu hunain.



Dywedodd yr heddlu y bydden nhw'n rhoi eu holl gofnodion o'r achos i helpu.



Daeth yr ymchwiliad i ben ym Mawrth 2015.



Yn Rhagfyr 2015 roedd gwrandawriad am sut roedd Mr W wedi ymddwyn yn y gwaith.



Roedd y Bwrdd Iechyd yn ceisio cynllunio rhan nesaf y gwrandawriad.



Cafodd Mr W ei arestio am lofruddio menyw.



Roedd y llofruddiaeth ar wahân i beth ddigwyddodd yn y Bwrdd Iechyd.



Digwyddodd ym Mawrth 2016.



Roedd Mr W dal wedi'i gyflogi gan y Bwrdd Iechyd.



Cafodd ei gael yn euog a chafodd ei anfon i'r carchar am lofruddiaeth.



Beth wnaeth y Bwrdd Iechyd nesaf



Yn 2017, gwnaeth y bwrdd iechyd adolygiad o sut wnaethon nhw ddelio â'r 3 honiad.



Gwnaethon nhw hyn drwy edrych ar eu holl waith papur.



Cawson nhw y gallen nhw fod wedi gwneud pethau'n well.



Gwnaethon nhw gynllun i wella sut i:



1. Cadw pobl yn ddiogel



2. Adrodd am bethau sy'n mynd o'u lle



3. Cyflogi staff yn y ffordd gywir



4. Rheoli a rhedeg gweithle iach



Roedden nhw hefyd yn teimlo nad oedd unrhyw ffordd y bydden nhw wedi gallu gwybod beth oedd Mr W yn mynd i'w wneud.



Dywedon nhw nad oedd unrhyw ffordd y gallen nhw fod wedi ei stopio.

Beth wnaeth AGIC ei ddarganfod



Cafodd AGIC nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi dysgu digon o'r hyn a ddigwyddodd.



Mae hyn oherwydd gwnaethon nhw edrych ar eu gwaith papur yn unig.



Roedd hyn yn golygu bod rhai pethau pwysig wedi cael eu colli.



Nid yw unrhyw rai o gofnodion gwaith Mr W yn dweud nad oedd yn ddiogel i weithio mewn gofal




Ond ni ddylai'r bwrdd iechyd fod wedi dweud nad oedd unrhyw ffordd o'i stopio.



Mae hyn oherwydd ni allai'r bwrdd iechyd fod wedi gwybod hyn o'r pethau y gwnaethon nhw edrych arnyn nhw



Edrychodd yr adolygiad ar sut y cafodd yr honiadau yn erbyn Mr W eu trin.



Ni chafodd yr honiad cyntaf ei adrodd yn y ffordd iawn.



Mae hyn yn dangos ei fod yn bwysig iawn i staff wrando ar gleifion.



Roedd amser hefyd pan oedd Mr W wedi cael cario ymlaen i weithio gyda chleifion cyn iddo gael ei anfon ar absenoldeb.



Ni ddylai hynny fod wedi digwydd.



Roedd honiadau 2 a 3 wedi cael eu trin yn fwy difrifol.



Nid oedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi cymryd rhan cymaint ag y dylen nhw.



Gwnaeth yr heddlu ymchwilio i bob un o'r 3 honiad.



Dywedodd y CPS nad oedd digon o dystiolaeth i fynd â Mr W i'r llys.



Gwnaeth ymchwiliad y Bwrdd lechyd gymryd amser hir.



Roedd hyn oherwydd nad oedd gan y staff oedd yn gwneud yr ymchwiliad ddigon o amser a chymorth i'w helpu nhw.



Nid oedd AGIC yn credu bod y Bwrdd lechyd yn dda am sut yr oedden nhw'n cynllunio i gadw pobl yn ddiogel.



Mae adroddiadau eraill wedi canfod yr un peth.



Mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud rhai pethau'n well.




Ond nid oes digon wedi newid.



Nid yw'n glir sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cadw pobl yn ddiogel.



Mae AGIC yn credu bod hyn yn stopio'r bwrdd iechyd rhag gweld y darlun cyfan.



Nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi dilyn eu rheolau eu hunain pan wnaethon nhw roi'r swydd gweithiwr cymorth i Mr W.



Ni chafodd Mr W wiriad DBS pan gafodd ei gyflogi.



Mae gwiriad DBS yn edrych i weld a yw rhywun sy'n ceisio am swydd yn risg i bobl agored i niwed.



Mae'n edrych ar gofnodion troseddol.



Mae hefyd yn gweld os yw'r heddlu yn edrych arnoch chi am unrhyw reswm.



Nid yw rhai gweithwyr eraill yn y Bwrdd Iechyd yn cael y gwiriad chwaith.



Nid yw hyn yn iawn.



Mae hyn yn rhoi pobl mewn perygl.



Mae'r rheolau am sut mae pobl yn cael eu cadw'n ddiogel yng Nghymru yn cael sylw eto.



Mae AGIC yn dweud bod angen y gwaith hwn ar Gymru cyn bo hir.



Bydd yn dweud wrth yr holl weithwyr proffesiynol yng Nghymru i wneud yr un pethau i gadw oedolion yn ddiogel.




Roedd pethau y gwnaeth y Bwrdd Iechyd yn wael yn yr achos hwn.



Nid oedd staff yn gweld pa mor ddifrifol oedd yr honiadau ar y pryd.



Mae AGIC yn dweud bod y Bwrdd Iechyd nawr yn gwneud rhai pethau yn well.



Ond mae angen gwneud llawer mwy.


Argymhellion AGIC




Dyma beth mae AGIC yn dweud y dylai ddigwydd nawr.



Gallwch chi ddarllen yr argymhellion llawn ar ein gwefan www.hiw.org.uk



Mae AGIC wedi gwneud 24 o argymhellion i wneud yn siwr nad yw pethau fel hyn yn digwydd eto.



Argymhelliad 1

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddilyn y rheolau bob amser pan mae'n rhoi swydd wahanol i weithiwr.



Argymhelliad 2

Mae hyn am iechyd galwedigaethol.

Iechyd galwedigaethol yw'r adran sy'n cefnogi pobl â phroblemau iechyd i barhau i weithio.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd feddwl am sut y gall iechyd galwedigaethol rannu cyngor gyda rheolwyr.

Argymhelliad 3



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddilyn y rheolau bob amser am atal gweithwyr neu eu rhoi nhw ar absenoldeb arbennig.

Rhaid i'r holl staff ddeall sut i ddefnyddio'r rheolau hyn pan mae ganddyn nhw weithwyr dan ymchwiliad.



Argymhellion 4-5

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddod o hyd i ddigon o amser ac arian ar gyfer ymchwiliadau i wneud yn siŵr eu bod yn digwydd yn gyflym.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod y gweithwyr proffesiynol iawn yno i ddeall beth mae person ag anabledd dysgu yn ei ddweud am aelod o staff sydd wedi gwneud niwed neu roi gofid iddyn nhw.

Argymhellion 6-7



Dylai holl reolau a phrosesau Cymru ar gyfer cadw pobl yn ddiogel helpu gweithwyr proffesiynol i weithio yn yr un ffordd.

Dylai'r Bwrdd Iechyd edrych eto ar ei gynllun i gadw oedolion yn ddiogel (strategaeth diogelu).

Mae angen iddo wneud yn siŵr ei fod yn gyfredol.



Argymhellion 8-9

Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut i ddiweddaru DBS (gwiriadau'r heddlu) ar gyfer staff y GIG.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud yn siwr bod pob aelod o staff yn cael gwiriad DBS os yw eu swydd yn golygu bod ei angen arnyn nhw.

Rhaid gwneud gwiriadau DBS brys ar gyfer staff nad ydyn nhw wedi cael un.

Rhaid edrych ar y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud y gwiriadau i wneud yn siŵr eu bod yn gyfredol.

Pan fydd gweithiwr yn symud o ran arall o'r Bwrdd Iechyd mae'n rhaid bod yn glir am bwy fydd yn gwneud y gwiriad DBS.

Argymhellion 10-12

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd edrych ar eu hyfforddiant ar gadw oedolion yn ddiogel.

Dylen nhw feddwl am

- hyfforddiant wyneb yn wyneb
- hyfforddiant yn seiliedig ar storïau



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddod o hyd i ffordd well i rannu'r hyn maen nhw'n dysgu o bob achos diogelu.

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd edrych ar sut maen nhw'n mesur pa mor dda yw eu hyfforddiant a'u goruchwyliaeth i reolwyr.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddilyn canllaw Cymru o'r enw Arfer Gorau Diogelu Cymru Gyfan.

Argymhellion 13-14



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd edrych ar sut maen nhw'n gwneud yn siwr y gall yr holl weithwyr proffesiynol iawn gymryd rhan mewn cyfarfodydd am gadw oedolion yn ddiogel.

Dylen nhw hefyd ddefnyddio ffordd dda i wirio beth gafodd ei wneud pan fydd achos diogelu yn cael ei gau.

Dylai fod ffordd dda i wneud yn siwr bod pob argymhelliad o ymchwiliad yn cael eu gwneud.

Argymhellion 15-18



Rhaid i'r Bwrdd lechyd ddweud wrth bobl ble i ddod o hyd i eiriolaeth a chymorth os ydyn nhw wedi'u brifo neu'n ofidus oherwydd rhywbeth sydd wedi digwydd.


Pan fydd ymchwiliad yn digwydd, rhaid i'r Bwrdd lechyd gyfathrebu'n dda â nhw (os yw hynny'n dilyn y rheolau)



Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod staff yn deall bod rhaid i unrhyw un sy'n codi honiad diogelu gael ei gymryd o ddifrif bob amser.

Dylai'r Bwrdd lechyd feddwl am sut i gefnogi staff sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin a staff sy'n cael eu cyhuddo o gam-drin.

Dylai'r Bwrdd lechyd feddwl am ffyrdd y gall staff awgrymu sut i wneud pethau'n well.



Argymhelliad 19

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddweud wrth AGIC beth a wnaeth ar ôl adroddiad Uned Cyflawni'r GIG.



Argymhellion 20-23


Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wella'n gyflym sut mae'n adrodd ar ddiogelwch a pha mor dda yw ei wasanaethau.

Rhaid iddo fod yn well o ran rhannu dysgu o'r pethau sy'n mynd o'i lle.

Dylai Llywodraeth Cymru feddwl am sut i rannu gwersi diogelu ledled Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Argymhelliad 24

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno ar reolau newydd i gynllunio a gwirio eu gwasanaethau anabledd dysgu.

Rhaid iddyn nhw ddilyn y rheolau hyn.